

# Dirprwy Reolwr Tîm, Tîm Ymyriadau Teuluol
## Gwasanaethau Cymdeithasol
## £42,503 - £45,495
## Parhaol, Llawn Amser
## Swyddfeydd y Sir, y Fflint, gyda gweithio hyblyg/ hybrid

Mae ein tîm Ymyriadau Teuluol yn gweithio'n agos gyda Chyswllt Cyntaf â Chefnogaeth wedi'i Thargedu i ddwysau achosion, neu fod yn llai dwys wrth ddelio ag achosion, pan fo'r angen yn codi. Byddwch yn ymuno â thîm sefydledig, sy'n gweithredu ar draws ein cylch gwaith Gwasanaethau Plant, a byddwch yn gyfrifol am sicrhau y ffurfir polisïau a gweithdrefnau, ac y cydymffurfir â nhw. Byddwch hefyd yn gyfrifol am sicrhau ansawdd adroddiadau Amddiffyn Plant, asesiadau rhianta ac adroddiadau Llys.

Mae'n rhaid i chi fod yn ymarferydd cryf ac yn gallu darparu ystod o ofal cymdeithasol o ansawdd uchel a chost effeithiol, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, i blant mewn angen. Byddwch yn goruchwylio tîm sefydledig ac yn cynnig cyngor, arweiniad a chefnogaeth broffesiynol, i sicrhau eu bod yn barod i ddelio â gofynion cymhleth a newidiol y gwasanaeth.

Mae'r swydd yn gofyn am oruchwyliaeth uniongyrchol a chymorth ar gyfer gweithwyr cymdeithasol wrth gwblhau adroddiadau perthnasol a'u cefnogi yn y maes. Dylech feddu ar wybodaeth am arferion cyfredol a disgwyliadau'r gwasanaethau cymdeithasol o ran sgiliau cyfreithiol ac ymarferol.

Gan weithio gydag amrywiaeth eang o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol, mae'r swydd yn gofyn am ymroddiad, hyblygrwydd a dealltwriaeth drylwyr o'r holl safonau perthnasol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014). Mae'r swydd yn gofyn am y gallu i feithrin cydberthnasau effeithiol gyda thimau gwasanaethau cymdeithasol a chreu partneriaethau cydweithredol cadarn gydag asiantaethau eraill. Yn ogystal, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn meddu ar angerdd a phenderfyniad i fodloni gofynion y swydd hon.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fod wedi cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru a gan y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dod i gysylltiad rheolaidd â phlant, mae'r swydd yn amodol ar wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn sgil bwysig a gwerthfawr yn y gweithle, ac mae wedi ymrwymo i gynyddu nifer y gweithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau am unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn hefyd yn cefnogi unrhyw aelodau staff newydd neu gyfredol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella / datblygu eu sgiliau Cymraeg.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Peter Robson, Rheolwr Gwasanaeth,
e-bost: Peter.Robson@flintshire.gov.uk

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL